

---

# Dal y BBC i gyfrif ar gyfer cynulleidfaoedd

Atodiadau

---

**Datganiad:**

Dyddiad Cyhoeddi: 13 Hydref 2017



# Cynnwys

---

## Atodiad

A1. Rôl Ofcom yn rheoleiddio'r BBC	1
A2. Ein dull gweithredu ar gyfer pennu'r Drwydded	10

# A1. Rôl Ofcom yn rheoleiddio'r BBC

## Siarter a Chytundeb newydd y BBC

- A1.1 Ar 15 Rhagfyr 2016, cyhoeddodd y Llywodraeth Siarter a Chytundeb newydd y BBC a oedd yn datgan sut caiff y BBC ei lywodraethu a'i reoleiddio dros yr 11 mlynedd nesaf.<sup>12</sup> Mae'r Siarter yn pennu cenhadaeth a dibenion cyhoeddus ffres i'r BBC, gyda ffocws newydd ar fod yn unigryw. Mae'r Siarter newydd hefyd yn gwneud newidiadau mawr i sut roedd y BBC yn cael ei oruchwylio: mae'n sefydlu Bwrdd BBC newydd i redeg y BBC yn lle Ymddiriedolaeth y BBC, ac yn symud y cyfrifoldeb am reoleiddio'r BBC i reoleiddiwr annibynnol, allanol, Ofcom.
- A1.2 O dan y Siarter a'r Cytundeb, rhaid i Fwrdd y BBC redeg y BBC – gan bennu cyfeiriad strategol y BBC a'i gyllidebau, a goruchwylio dull gweithredu golygyddol a chreadigol cyffredinol y BBC, gan gynnwys goruchwylio penderfyniadau ynghylch comisiynu ac amserlennu. Rôl Ofcom ydy rheoleiddio yn gadarn, yn deg ac yn annibynnol mewn tri maes: safonau cynnwys, effaith y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, a pherfformiad y BBC wrth gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus. Dechreuodd Ofcom ysgwyddo ei gyfrifoldebau newydd ar 3 Ebrill 2017. Wrth reoleiddio'r BBC, bydd gofyn i ni ystyried ein dyletswyddau cyffredinol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a gofynion penodol y Siarter a'r Cytundeb.

## Rôl a dyletswyddau Ofcom

- A1.3 O dan y Siarter a'r Cytundeb, rhaid i ni gyhoeddi Fframwaith Gweithredu sy'n cynnwys darpariaethau rydyn ni'n credu sy'n briodol er mwyn rheoleiddio'r BBC yn effeithiol. Mae'r Fframwaith Gweithredu yn gyfres o ddogfennau sy'n edrych ar yr ystod lawn o'n dyletswyddau rheoleiddio newydd mewn tri maes, sef safonau cynnwys, cystadleuaeth a pherfformiad.
- A1.4 Ym maes perfformiad, rhaid i Fwrdd y BBC arwain y BBC i gyflawni nodau'r Siarter. Mae Ofcom yn gyfrifol am ddal y BBC i gyfrif am ei berfformiad ar draws ei amrywiaeth o wasanaethau, ac mae'r Siarter yn rhoi ystod o gyfrifoldebau a phwerau i ni wneud hyn. Yn benodol:

---

<sup>1</sup> 'Y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig' (y "**Siarter**"), sydd ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement>.

<sup>2</sup> 'Y Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC' (y "**Cytundeb**"), sydd ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-frameworkagreement>.

- a) mae'n rhaid i ni bennu **trwydded weithredu** ("Trwydded") ar gyfer y BBC, sy'n cynnwys amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi ar wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU.<sup>3</sup> Mae'r Siarter yn mynnu ein bod yn rhoi amodau ar waith rydyn ni'n credu sy'n briodol i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus; sef sicrhau darpariaeth sy'n cynnig gwasanaethau ac allbwn unigryw; a sicrhau bod yr holl gynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da. Mae hefyd yn galluogi Ofcom i roi sanctiynau ar y BBC gan gynnwys, am y tro cyntaf, dirwyon posib os bydd yn methu â chyflawni'r amodau rheoleiddio rydyn ni wedi'u gosod;
- b) mae gennyn ni bwerau i bennu'r **mesurau perfformiad** rydyn ni'n ystyried sy'n briodol i asesu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU, sydd ar wahân i fesurau perfformiad y BBC ei hun, er mwyn asesu sut mae'r BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus<sup>4</sup>;
- c) mae gennyn ni bwerau i gynnal adolygiadau o agweddau ar berfformiad y BBC unrhyw bryd, os ydyn ni'n credu bod hynny'n briodol, ac mae gofyn i ni gynnal dau adolygiad o'r fath o berfformiad y BBC yn ystod cyfnod y Siarter.

A1.5 Mae gofyn i ni adrodd yn flynyddol ar berfformiad y BBC yn erbyn y mesurau rydyn ni wedi'u gosod, ac ar sut mae'r BBC yn cydymffurfio â'r amodau rheoleiddio yn y Drwydded.

A1.6 Mae'r datganiad yma'n nodi sut byddwn ni'n cyflawni ein dyletswyddau ac yn dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei gyfrifoldebau. Rydyn ni'n cyhoeddi fersiynau terfynol o'r canlynol ynddo:

- a) y Drwydded gyntaf<sup>5</sup>, sy'n cynnwys yr amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi rydyn ni'n eu gosod;
- b) Fframwaith mesur perfformiad Ofcom ar gyfer y BBC, sy'n seiliedig ar fesurau perfformiad craidd; a
- c) rhannau o'r Fframwaith Gweithredu sy'n datgan y broses y byddwn ni'n ei dilyn pan fyddwn yn pennu ac yn diwygio'r Drwydded neu'r mesurau perfformiad.

A1.7 Wrth bennu'r Drwydded a'r mesurau perfformiad, rydyn ni'n rhwym wrth ein dyletswyddau cyffredinol yn adran 3 Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y "**Ddeddf**") yn ogystal â gofynion y Siarter a'r Cytundeb.<sup>6</sup> Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni gynnal ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd yn hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu; a defnyddwyr, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth.

A1.8 Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni ystyried yr egwyddorion sy'n nodi y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at yr

<sup>3</sup> Mae Erthygl 46(3) o'r Siarter yn nodi mai cwrpas trwydded weithredu Ofcom, a'r amodau rheoleiddio sydd ynddi, ydy gwasanaethau cyhoeddus y DU.

<sup>4</sup> Adran 198 Deddf Cyfathrebiadau 2003, Siarter y BBC, erthygl 44 ac erthygl 46.

<sup>5</sup> Ochr yn ochr â'r drwydded weithredu, rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi dogfennau ar wahân sy'n nodi mewn un lle'r amodau rheoleiddio sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd ym mhob gwlad.

<sup>6</sup> Siarter y BBC, erthygl 45(1).

achosion lle mae angen cymryd camau. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu ein bod yn ystyried, fel sy'n briodol, rhai egwyddorion penodol eraill sy'n berthnasol yn ein barn ni. Rydyn ni'n credu bod yr egwyddorion canlynol yn y Ddeddf yn berthnasol i'r datganiad yma:

- a) pa mor ddymunol ydy hyrwyddo cyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU;
- b) anghenion pobl anabl, yr henoed a'r rheini sydd ar incwm isel;
- c) barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol a'r cyhoedd yn gyffredinol; ac
- d) y diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.<sup>7</sup>

A1.9 O dan y Siarter, rhaid i ni hefyd ystyried, wrth gynnal ein swyddogaethau (os ydyn ni'n ystyried bod hynny'n berthnasol yn yr amgylchiadau): amcan y BBC sef cyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus; pa mor ddymunol ydy diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y DU; a'r gofyn i'r BBC gydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y Siarter, gan gynnwys ei ddyletswyddau cyffredinol yn unol ag erthyglau 9 i 18 o'r Siarter.<sup>8</sup>

## **Caiff cenhadaeth a dibenion cyhoeddus y BBC eu cyflawni ar gyfer cynulleidfaedd y DU drwy ei wasanaethau cyhoeddus yn y DU**

A1.10 Mae cenhadaeth y BBC wedi'i datgan yn y Siarter. Y genhadaeth ydy gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, unigryw o safon uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.<sup>9</sup>

A1.11 Dibenion Cyhoeddus y BBC ydy:

- a) darparu newyddion a gwybodaeth diduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas;
- b) cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed;
- c) dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau;
- d) adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl ranbarthau a gwledydd y DU ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y DU; ac
- e) adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.<sup>10</sup>

A1.12 Mae'r BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus i gynulleidfaedd ledled y DU drwy wasanaethau cyhoeddus y DU. Mae rhestr o wasanaethau cyhoeddus presennol

---

<sup>7</sup> Adran 3(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

<sup>8</sup> Siarter y BBC, erthygl 45(2). Mae Erthygl 20(8) o'r Siarter yn darparu lle mae'n ymddangos i Fwrdd y BBC bod eu rhwymedigaethau o dan y Siarter, y Cytundeb a'r fframwaith gweithredu'n gwrthdaro ag unrhyw gais neu benderfyniad y mae Ofcom wedi'i wneud (sy'n gorfod ystyried ei rwymedigaethau o dan erthygl 45(2) (c)), mae'n rhaid i Fwrdd y BBC, er hynny, gydymffurfio â chais neu benderfyniad Ofcom.

<sup>9</sup> Siarter y BBC, erthygl 5.

<sup>10</sup> Siarter y BBC, erthygl 6.

y BBC yn y DU ar gael yn Atodlen 1 y Cytundeb, ac mae'n cynnwys portffolio'r BBC o deledu, radio a gwasanaethau ar-lein, sydd wedi'u hanelu'n bennaf at bobl yn y DU.<sup>11</sup> Rhaid i'r BBC gynnal a chyhoeddi'r rhestr hon, gan nodi enw'r gwasanaeth, math y gwasanaeth a disgrifiad cryno o'r hyn y mae'n ei ddarparu. Er enghraifft, mae'r Cytundeb yn disgrifio BBC One fel *"sianel genres cymysg, â fersiynau ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac amrywiadau ar gyfer rhanbarthau o Loegr ac Ynysoedd y Sianel, sy'n darparu amrywiaeth helaeth o raglenni ar gyfer cynulleidfa prif ffrwd."* Rhaid i bob un o wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo un neu ragor o'r dibenion cyhoeddus.

A1.13 Mae'r BBC yn gyfrifol am benderfyniadau ar y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau ar gyfer y teledu, radio ac ar-lein; am bennu cylch gwaith ar gyfer pob un ohonyn nhw ac am wneud penderfyniadau creadigol, gan gynnwys dewis ac amserlennu rhaglenni. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â'r amodau rheoleiddio y mae Ofcom wedi'u gosod yn y Drwydded er mwyn sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth ac yn hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus drwy ei wasanaethau cyhoeddus yn y DU. Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn mynnu, yn arbennig, ein bod ni'n gosod amodau mewn rhai meysydd, er enghraifft, darparu newyddion; mae gennyn ni ddisgresiwn hefyd i osod amodau rydyn ni'n ystyried sy'n briodol, yn amodol ar ein dyletswyddau cyfreithiol.

A1.14 Ar wahân i hynny, mae'r Cytundeb hefyd yn darparu bod y BBC ac Ofcom yn asesu cynigion ar gyfer gwneud newidiadau perthnasol i wasanaethau cyhoeddus y DU os ydy'n bosib y gallan nhw gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Gall Ofcom hefyd gynnal adolygiadau cystadleuaeth i asesu effeithiau posib gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus parhaus y BBC ac a ydy'r gwerth cyhoeddus yn cyfiawnhau unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Mae dull gweithredu Ofcom o ran ei gyfrifoldebau am gystadleuaeth yng nghyswllt y BBC wedi'i nodi yn adran cystadleuaeth y Fframwaith Gweithredu ar gyfer y BBC.<sup>12</sup>

## **Fe wnaethon ni ymgynghori'n eang ynghylch ein cynigion ar gyfer dal y BBC i gyfrif am ei berfformiad, ac fe wnaethon ni siarad â chynulleidfa oedd**

A1.15 Ar 29 Mawrth 2017, fe wnaethon ni gyhoeddi ymgynghoriad a oedd yn amlinellu ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer gosod amodau. Fe wnaethon ni nodi yn yr ymgynghoriad sut gallem ni weithredu trefn reoleiddio effeithiol ar gyfer dal y BBC i gyfrif, gyda hyblygrwydd i newid y gofynion manwl dros amser.<sup>13</sup> Daeth ymgynghoriad mis Mawrth ynghylch ein Trwydded ddrafft a'n mesurau perfformiad i ben ar 17 Gorffennaf, gan

---

<sup>11</sup> Er hwylustod, rydyn ni wedi nodi rhestr o wasanaethau cyhoeddus y DU yn Atodlen 4 y drwydded weithredu. <sup>12</sup> Mae ein gweithdrefnau ar gyfer cystadleuaeth y BBC wedi'u cyhoeddi yma: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/ofcom-and-the-bbc/the-operating-framework>.

<sup>12</sup> Mae ein gweithdrefnau ar gyfer cystadleuaeth y BBC wedi'u cyhoeddi yma: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/ofcom-and-the-bbc/the-operating-framework>.

<sup>13</sup> Ofcom, *Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus*, 29 Mawrth 2017 (yr "ymgynghoriad"). [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0033/99519/bbc-performance-consultation.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0033/99519/bbc-performance-consultation.pdf).

ganiatáu i Ofcom a'r rhai a ymatebodd i'n hymgyngoriad ystyried ymrwymadau'r BBC i ddiwallu ei ddibenion cyhoeddus newydd yn ei gynllun blynyddol interim, a gyhoeddwyd ar 3 Gorffennaf.

- A1.16 Cawsom ymatebion gan 117 o randdeiliaid i'n hymgyngoriad. Wrth roi trefn derfynol ar y Drwydded a'r mesurau perfformiad, rydyn ni wedi ystyried pob un o'r ymatebion hyn, yn ogystal â'r ddwy ddogfen weithdrefnol ar ein prosesau ar gyfer eu diwygio yn y dyfodol. Mae'r holl ymatebion heb fod yn gyfrinachol ar gael ar ein gwefan.<sup>14</sup>
- A1.17 Oherwydd pwysigrwydd natur unigryw yn y Siarter a'r Cytundeb newydd, rydyn ni hefyd wedi comisiynu ymchwil helaeth i ddeall sut mae cynulleidfaoedd yn gweld natur unigryw'r BBC nawr, a beth sydd bwysicaf iddyn nhw, fel sail ar gyfer ein dull gweithredu ar gyfer gosod y Drwydded.<sup>15</sup>

## Ymateb y BBC, a'i gynllun blynyddol interim

- A1.18 O dan y Siarter, rhaid i'r BBC gyhoeddi cynllun blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, cyn y cyfnod mae'n berthnasol iddo.<sup>16</sup> Cyhoeddodd y BBC ei gynllun blynyddol interim a chyllideb ar gyfer 2017/18 ar 3 Gorffennaf 2017 (y "**cynllun blynyddol interim**").<sup>17</sup> Roedd yn cyflwyno:
- cyllch gwaith creadigol y BBC ar gyfer y flwyddyn, sy'n dangos sut bydd ei allbwn a'i wasanaethau'n cyfrannu at gyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus;
  - sut bydd allbwn a gwasanaethau'r BBC yn cyfrannu at sicrhau natur unigryw, drwy'r amodau yn Nhrwydded ddrafft Ofcom ac ymrwymadau ychwanegol y BBC; a
  - fframwaith perfformiad y bydd Bwrdd y BBC yn ei ddefnyddio i farnu pa mor effeithiol ydy'r BBC am gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus bob blwyddyn.
- A1.19 Mae'r cynllun blynyddol interim hefyd yn nodi cynlluniau strategol ehangach y BBC ar gyfer y tair blynedd nesaf, gan gynnwys buddsoddiad ychwanegol o £34m mewn cynnwys ar gyfer plant a mwy o fuddsoddi yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- A1.20 Roedd cynllun interim y BBC yn atgynhyrchu'r rhan fwyaf o'r amodau yn Nhrwydded ddrafft Ofcom. Yn y cynllun, dywedodd y BBC ei fod yn ystyried y Drwydded ddrafft yn ddogfen gytbwys, sy'n ei ymestyn. Roedd hefyd yn datgan mai dim ond pan fo angen y dylid defnyddio amodau rheoleiddio, ac na ddylen nhw gyfyngu'n ormodol ar ryddid creadigol nac ar allu'r Bwrdd i bennu strategaeth. Hefyd, anfonodd y BBC ymateb ar wahân

---

<sup>14</sup> Mae pob fersiwn heb fod yn gyfrinachol o'r ymatebion i'r ymgyngoriad ar gael yn:

<https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/bbc-performance>.

<sup>15</sup> Fe wnaethon ni gomisiynu Ipsos Mori i gynnal y gwaith ymchwil ansoddol yma i weld beth ydy barn y cyhoedd am natur unigryw y BBC. Mae wedi'i gyhoeddi yma <https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/tv-research/bbc-distinctiveness-report>.

<sup>16</sup> Siarter y BBC, erthygl 36.

<sup>17</sup> *Cynllun Blynyddol y BBC ar gyfer 2017/18*, ar gael yn:

[http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/reports/pdf/BBC\\_Annual\\_Plan\\_2017-18.pdf](http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/reports/pdf/BBC_Annual_Plan_2017-18.pdf). Mae'r BBC yn nodi y bydd yn cyhoeddi fersiwn derfynol ar ôl i Ofcom gyhoeddi'r drwydded weithredu derfynol. O dan y Siarter, mae gofyn iddo wneud hyn cyn pen tri mis o gyhoeddi'r drwydded weithredu derfynol.



i'n hymgyngghoriad, yn cynnig cymysgedd o newidiadau sylweddol a thechnegol i'r Drwydded, ac yn nodi ymrwymïadau ychwanegol y mae'r BBC yn bwriadu eu cyflawni yn 2017/18.

- A1.21 Yn ogystal â'i gynllun blynyddol interim a'r prif ymateb i'r ymgynghoriad, mae'r BBC wedi anfon tri llythyr arall aton ni, yn nodi ymrwymïadau ychwanegol a sylwadau ar ein cynigion. Rydyn ni wedi cyhoeddi'r rhain i gyd ar ein gwefan.<sup>18</sup> Roedd yr ail lythyr, dyddiedig 14 Awst 2017, yn cynnwys ymrwymïadau ychwanegol o ran gwasanaethau radio'r BBC, y dywedodd y BBC fyddai'n cael eu cynnwys yn fersiwn derfynol ei gynllun blynyddol interim.
- A1.22 Rydyn ni wedi ystyried yr hyn mae'r BBC wedi ymrwymo i'w wneud yn ei gynllun blynyddol interim, ac mewn manau eraill, yn ogystal â'i ymateb ar wahân i'n hymgyngghoriad, ochr yn ochr ag ymatebion eraill i'r ymgynghoriad a chanfyddiadau ein gwaith ymchwil ni.

## Y Drwydded

- A1.23 Roedd ein hymgyngghoriad yn cynnig un Drwydded ar gyfer holl wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU – teledu, radio ac ar-lein – yn lle'r hen system o drwydded gwasanaeth ar gyfer pob un o wasanaethau unigol y BBC. Roedden ni wedi cynnig pennu un Drwydded ar gyfer holl wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU oherwydd ein bod yn credu bod hynny'n fwy hygyrch a chydlynol, gan y byddai'r gofynion gwahanol roedden ni'n cynnig eu gosod yn cael eu hanelu'n amrywiol at un o wasanaethau'r BBC, rhai ohonynt neu'r cwbl. Roedden ni hefyd yn cynnig y dylid trefnu ein Trwydded o amgylch dibenion cyhoeddus y BBC. Ochr yn ochr â'r Drwydded ddrafft, fe wnaethon ni hefyd gyhoeddi dogfennau unigol ar gyfer pob un o wledydd y DU, gan dynnu'r holl amodau rheoleiddio arfaethedig sy'n berthnasol i'r BBC yn y wlad honno at ei gilydd mewn un lle.
- A1.24 Yn dilyn ein hymgyngghoriad, rydyn ni wedi penderfynu cadw at y dull o gael un Drwydded, wedi'i threfnu o amgylch y dibenion cyhoeddus. Mae Atodiad 2 yn nodi'r ymatebion rydyn ni wedi'u derbyn i'n hymgyngghoriad ar hyn o bryd, ynghyd â'n rhesymau. Rydyn ni wedi gwneud nifer o newidiadau i wella ac i gryfhau'r amodau mewn ymateb i'r ymgynghoriad, ein hymchwil ein hunain a chynllun blynyddol interim y BBC. Rydyn ni wedi ychwanegu amodau newydd.
- A1.25 Os byddwn ni'n gweld bod y BBC wedi methu cydymffurfio ag un o'r amodau rheoleiddio, a'n bod ni wedi rhoi cyfle rhesymol i'r BBC roi sylwadau, gallwn gymryd amrywiol gamau i osod sancsiynau ar y BBC. Mae hyn yn cynnwys, os ydy hynny'n briodol, cosb ariannol hyd at uchafswm o £250,000.<sup>19</sup> Rydyn ni'n disgwyl i'r BBC ddiwallu'r holl ofynion rydyn ni wedi'u nodi; ac os na fydd yn gwneud hynny, byddwn yn cymryd camau i'w gorfodi.
- A1.26 Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydyn ni wedi penderfynu ar ddyddiad cychwyn terfynol ar gyfer y Drwydded. O dan amod 2.3, mae gofyn i'r BBC gydymffurfio ag amodau rheoleiddio'r Drwydded, yn dechrau o 1 Ionawr 2018. Hefyd, yn unol â'r dull gweithredu rydyn ni'n ei nodi yn yr ymgynghoriad, ochr yn ochr â'r datganiad hwn (ac yn Atodiad 8) rydyn ni wedi

---

<sup>18</sup> <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/bbc-performance>

<sup>19</sup> Mae'n rhaid i Ofcom drosglwyddo unrhyw daliad a gaiff drwy gosb ariannol i Drysorlys EM.

cyhoeddi'r ddogfen sy'n nodi'r gweithdrefnau a'r ystyriaethau y byddwn ni'n eu dilyn wrth bennu a diwygio'r Drwydded, sy'n rhan o'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer y BBC. Rydyn ni wedi pennu'r Drwydded yn unol â'r gweithdrefnau a'r ystyriaethau yma.

- A1.27 Mae Atodiadau 2, 3 a 4 yn trafod yr ymatebion rydyn ni wedi'u derbyn i'n hymgyngoriad a'n rhesymau manwl dros ein dull gweithredu terfynol ar gyfer y Drwydded.

## Ein fframwaith mesur perfformiad

- A1.26 Mae'r amodau rheoleiddio rydyn ni wedi'u gosod ar gyfer y BBC yn y Drwydded yn ganolog i sicrhau bod y BBC yn hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus ac yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, dim ond rhan o sut byddwn ni'n dal y BBC i gyfrif am gyflawni ydy'r rhain. Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn caniatáu i Ofcom sefydlu mesurau perfformiad sydd ar wahân i rai'r BBC, lle mae gofyn i ni adrodd yn flynyddol am berfformiad y BBC yn eu herbyn.
- A1.28 Bydd sefydlu'r mesurau perfformiad hyn yn sicrhau bod ein dull gweithredu o ran dal y BBC i gyfrif yn seiliedig ar dystiolaeth glir. Byddwn yn ystyried data'r BBC yn ein gwaith. Ond mae hi'n bwysig bod ein mesurau perfformiad hefyd yn annibynnol: rhaid i drefn rheoleiddio gredadwy gael mynediad at sail dystiolaeth annibynnol.
- A1.29 Yn ein hymgyngoriad ym mis Mawrth, roedden ni'n cynnig fframwaith mesur perfformiad a oedd wedi'i gynllunio i roi darlun manwl a chynhwysfawr i Ofcom – ac i gynulleidfaoedd – o sut mae'r BBC yn cyflawni'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus drwy ei wasanaethau cyhoeddus yn y DU. Cawsom gefnogaeth gyffredinol gan y rhai a ymatebodd i'n dull gweithredu yn yr ymgynghoriad. Mae Atodiad 5 yn nodi ein fframwaith mesur perfformiad terfynol.
- A1.30 Bydd ein fframwaith yn defnyddio ystod o gyfraniadau data marchnad ac ymchwil i roi mesurau perfformiad sy'n cefnogi ein hadroddiad blynyddol, ein hadolygiadau cyfnodol a'n hadolygiadau ad hoc. Byddwn yn canolbwyntio ein mesurau perfformiad ar wasanaethau unigol, grwpiau o wasanaethau neu allbwn cyffredinol y BBC ei hun, gan ddibynnu ar beth sydd fwyaf priodol. Mae crynodeb o'n ffynonellau data a'r mesurau rydyn ni'n eu cynnig eu monitro gyda nhw ar gael yn Atodiad 5.
- A1.31 Gyda'i gilydd, bydd y gwaith yma'n rhoi darlun manwl, sy'n datblygu, i ni o beth ydy barn cynulleidfaoedd, a sut mae'r BBC yn cyflawni'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus. Bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ein hadroddiad blynyddol, ein hadolygiadau cyfnodol ac unrhyw adolygiadau ad hoc y byddwn ni'n eu lansio yn ystod cyfnod y Siarter. Bydd yn rhoi rhybudd cynnar ar gyfer meysydd o dangyflawni posib gan y BBC, a bydd yn caniatáu i ni ymateb i hynny.
- A1.32 Byddwn yn gwella ac yn addasu ein mesurau perfformiad dros amser, i sicrhau ein bod ni'n cyfleu pryderon cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid yn ystod cyfnod y Siarter. Ochr yn ochr â'r datganiad hwn (ac yn Atodiad 9), rydyn ni wedi cyhoeddi'r gweithdrefnau a'r ystyriaethau y byddwn ni'n eu dilyn wrth osod a diwygio'r mesurau perfformiad. Rydyn ni wedi pennu ein mesurau perfformiad yn unol â'r gweithdrefnau a'r ystyriaethau yma.

## Y berthynas â'n cyfrifoldebau eraill ar gyfer rheoleiddio'r BBC

- A1.33 Mae ein cyfrifoldebau dros ddal y BBC i gyfrif am berfformiad yn rhan o gyfres ehangach o ddyletswyddau rheoleiddio sy'n cynnwys, yn gyffredinol:
- a) safonau golygyddol: sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â gofynion y Cod Darlledu<sup>20</sup>, gan gynnwys mewn meysydd fel didueddrwydd dyladwy, cywirdeb dyladwy a niwed a thramgwydd; a
  - b) cystadleuaeth: diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y meysydd y mae'r BBC yn gweithredu ynddyn nhw.
- A1.34 Mae fersiwn ddiweddaraf y Cod Darlledu'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i'r BBC eu dilyn er mwyn diogelu gwylwyr a gwrandawyr y BBC. Rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi set o ddogfennau sy'n egluro pa adnoddau y byddwn ni'n eu defnyddio, gan gynnwys gofynion penodol rydyn ni wedi'u rhoi ar y BBC, i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y meysydd y mae'r BBC yn gweithredu ynddyn nhw.<sup>21</sup> Mae'r dogfennau yma, ynghyd â'r Drwydded a'r mesurau perfformiad sy'n cael eu trafod yn y datganiad yma, yn rhan o'n fframwaith rheoleiddio ar gyfer y BBC. Os byddwn ni'n canfod materion sy'n codi pryderon posib ynghylch perfformiad y BBC yn hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus drwy ein gwaith sy'n ymwneud â sicrhau cydymffurfiaeth â safonau golygyddol, gallwn adolygu hyn fel rhan o'n gwaith ar berfformiad. Yn yr un modd, wrth adolygu perfformiad y BBC yn cyflawni ei wasanaethau cyhoeddus yn y DU, byddwn yn ystyried y posibilrwydd y bydd gweithgareddau'r BBC yn peri niwed i gystadleuaeth a bydd gennyn ni'r pwerau i weithredu.
- A1.35 Byddwn hefyd yn sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â rhai gofynion rheoleiddio<sup>22</sup> sy'n berthnasol i'r BBC yn uniongyrchol drwy'r Siarter neu'r Cytundeb, neu drwy ddeddfwriaeth, fel cwtâu ar gyfer cynrychiadau annibynnol<sup>23</sup>, a gofynion mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer pobl â nam ar y golwg neu'r clyw.<sup>24</sup>

## Asesiad o'r effaith ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

- A1.36 Mae gennyn ni ddyletswydd gyfreithiol i gynnal asesiadau o'r effaith pan fyddai ein penderfyniadau polisi'n debyg o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu ar y cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.<sup>25</sup> Mae ein dull gweithredu a chrynodeb o'r prif grwpiau a sefydliadau rydyn ni'n disgwyl y bydd hyn yn effeithio arnyn nhw ar gael yn Atodiad 6.
- A1.37 Mae Ofcom hefyd yn cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn deall effaith ei ymryiadau rheoleiddio ar y naw grŵp cydraddoldeb sydd wedi cael eu diffinio (gyda dau

---

<sup>20</sup> Ofcom, *Cod Darlledu*, ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code>.

<sup>21</sup> <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/ofcom-and-the-bbc>

<sup>22</sup> Mae pwerau gorfodi Ofcom wedi'u nodi yn erthygl 49 o'r Siarter ac yng nghymal 59 o'r Cytundeb (diffiniad o "ofynion penodol").

<sup>23</sup> Paragraff 6 o Atodlen 3 i'r Cytundeb, ac Atodlen 12 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

<sup>24</sup> Paragraff 9 o Atodlen 3 i'r Cytundeb.

<sup>25</sup> Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

grŵp cydraddoldeb arall yn cael eu hystyried yng Ngogledd Iwerddon yn unig). Fe wnaethon ni gyhoeddi asesiad o effaith ein cynigion ar gydraddoldeb yn yr ymgynghoriad. Mae ein hasesiad terfynol o'n penderfyniadau yn y datganiad yma, ar ôl i ni ystyried yn llawn yr ymatebion a gawsom i'n cynigion ymgynghori, wedi'u cyflwyno yn Atodiad 6.

A1.38 Yn gryno, rydyn ni wedi asesu y dylai'r mesurau rydyn ni'n eu rhoi ar waith yn y Datganiad yma fod yn gadarnhaol ar gyfer y grwpiau cydraddoldeb perthnasol. Y rheswm am hyn ydy mai un o ddibenion craidd y drefn perfformiad ydy asesu a sicrhau perfformiad y BBC o ran adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU drwyddi draw.

## A2. Ein dull gweithredu ar gyfer pennu'r Drwydded

Yn yr Atodiad yma ac yn Atodiadau 3 a 4, rydyn ni'n egluro ein penderfyniadau ynghylch pennu'r drwydded weithredu, gan gynnwys ein safbwyntiau ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn yr Atodiad yma, rydyn ni'n egluro sut rydyn ni wedi mynd ati i bennu'r drwydded weithredu yn gyffredinol, ac wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad wrth wneud hynny.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydyn ni wedi penderfynu:

- cael un drwydded weithredu ar gyfer holl wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU, wedi'i threfnu yn ôl dibenion cyhoeddus;
- gosod amcanion lefel uchel y BBC o dan bob diben cyhoeddus yn disgrifio'r canlyniadau rydyn ni'n disgwyl eu gweld dros gyfnod y Siarter, ynghyd â set o amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi. Bydd y rhan fwyaf o'r amodau rheoleiddio'n gwneud cyfraniad uniongyrchol at sicrhau BBC sy'n fwy unigryw;
- mabwysiadu'r gweithdrefnau a'r egwyddorion a gyhoeddwyd yn ein hymgyngghoriad ym mis Mawrth ar gyfer pennu a diwygio'r drwydded weithredu.

- A2.1 Mae'r Drwydded yma a'r mesurau perfformiad rydyn ni wedi'u gosod ochr yn ochr â hi wedi cael eu dylunio i gyflawni bwriad y Siarter a'r Cytundeb newydd yn llawn, drwy roi'r penderfyniadau creadigol yn nwylo'r rheini sy'n gwneud rhaglenni, ond gan ymestyn a herio'r BBC i gyflawni ar gyfer ei holl gynulleidfaeodd.
- A2.2 Mae'r Drwydded yn gosod ystod eang o amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi y mae'n rhaid i'r BBC eu bodloni. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ein hamodau yn herio'r BBC i gyflawni mwy; eu pwrpas ydy diogelu'r lefelau cyflawni presennol, nid dim ond cynnal y cwotâu presennol. Maen nhw'n gosod gwaelodlin ar gyfer perfformiad yn y dyfodol.
- A2.3 Yn yr Atodiad yma, rydyn ni wedi egluro'n fanylach sut rydyn ni wedi mynd ati i ystyried ymatebion rhanddeiliaid a, phan fo'n berthnasol, ein penderfyniadau ar y canlynol:
- a) strwythur y Drwydded;
  - b) ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer gosod amodau rheoleiddio;
  - c) materion ehangach eraill a godwyd gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad, gan gynnwys sut byddwn ni'n ystyried materion yn ymwneud â chystadleuaeth a phroses gynllunio flynyddol y BBC; ac
  - d) ein gweithdrefnau ar gyfer pennu a diwygio'r Drwydded yn y dyfodol.

## Un Drwydded wedi'i threfnu yn ôl dibenion cyhoeddus

- A2.4 Yn ein dogfen ymgynghori, roedden ni'n cynnig **un Drwydded** ar gyfer y BBC. O fewn y strwythur yma, roedden ni'n cynnig y dylai'r Drwydded gynnwys y canlynol ar gyfer y pedwar diben cyhoeddus cyntaf:
- amcanion lefel uchel** sy'n nodi ein disgwyliadau cyffredinol ar gyfer y BBC mewn perthynas â'r dibenion cyhoeddus. Mae'r rhain yn helpu i egluro i'r BBC ac i randdeiliaid eraill yr amcanion polisi gwaelodol rydyn ni'n credu y mae'n bwysig i'r BBC eu cyflawni, ac yn pennu disgwyliadau clir; a
  - amodau rheoleiddio** y mae modd i ni eu hasesu'n wrthrychol ac y gallwn ni eu gorfodi os na fydd y BBC yn eu bodloni. O dan y Siarter, mae'n rhaid i ni osod amodau rheoleiddio rydyn ni'n credu sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC: yn cyflawni ei genhadaeth ac yn hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus; yn sicrhau darpariaeth sy'n cynnig gwasanaethau ac allbwn unigryw; ac yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.<sup>26</sup>
- A2.5 Roedd ein hymgyngoriad yn nodi ein barn ar fanteision cael un Drwydded ar gyfer y BBC, yn hytrach na chyfres o drwyddedau ar wahân. Roedden ni wedi egluro ein bod o'r farn y byddai un drwydded wedi'i threfnu o amgylch y dibenion cyhoeddus yn cynnig eglurder a thryloywder i gynulleidfaoedd, i'r BBC ac i randdeiliaid eraill. Roedden ni hefyd o'r farn y byddai'r strwythur yma'n cynnig mwy o hyblygrwydd i ymateb i newidiadau mewn patrymau defnyddio a newidiadau yn y farchnad, drwy ein galluogi i osod ac i amrywio amodau sydd ddim yn benodol i wasanaethau unigol – er enghraifft, ein hamod newydd ei bod yn rhaid i'r BBC gytuno â ni ar god ymarfer ar gyfer amrywiaeth.<sup>27</sup> Ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer gosod amodau rheoleiddio oedd ceisio sicrhau bod y gwasanaethau hynny sy'n allweddol er mwyn i'r BBC gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus yn cael eu darparu, gan sicrhau bod ganddo'r hyblygrwydd i gymryd risgiau creadigol ac i benderfynu sut mae'n trefnu ei hun. Mewn nifer fawr o achosion, fe wnaethon ni gynyddu lefel y gofynion a oedd wedi'u gosod yn flaenorol gan yr Ymddiriedolaeth y BBC er mwyn adlewyrchu'r perfformiad go iawn yn well, a llywio'r broses gyflawni ar lefelau uwch.

## Ymatebion i'r Ymgynghoriad

- A2.6 Roedd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r dull gweithredu cyffredinol a gynigiwyd drwy strwythur y Drwydded newydd.<sup>28</sup> Dywedodd Creative Scotland fod ein dull gweithredu'n mynd ati'n briodol i ystyried cyfrifoldebau a swyddogaethau neilltuol Bwrdd y BBC ac Ofcom. Dywedodd y BBC ei fod yn credu y byddai un Drwydded yn gliriach ac yn cynnig mwy o atebolrwydd.

---

<sup>26</sup> Siarter y BBC, erthygl 46(3).

<sup>27</sup> Edrychwch ar yr Adran Amrywiaeth

<sup>28</sup> Ymateb y BBC, paragraff 3.2; ymateb Creative Scotland, tudalen 2; ymateb MG Alba, tudalen 4; ymateb yr Athro Steemers, tudalen 1; ymateb Plaid Unoliaethwyr Ulster, tudalen 2.

- A2.7 Dywedodd Llywodraeth yr Alban y dylid cael Trwyddedau penodol ar gyfer pob gwlad yn y DU, gan fynegi ei barn y byddai hyn yn cynnig un pwynt cyfeirio clir i'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded ac i'r rhanddeiliaid ym mhob gwlad. Awgrymodd Llywodraeth yr Alban hefyd y gallai Ofcom roi diffiniad cliriach o "ddyletswyddau penodol y BBC o ran cynulleidfaoedd ym mhob gwlad".<sup>29</sup>
- A2.8 Roedd rhai rhanddeiliaid yn cwestiynu'r cynnig i bennu un Drwydded, yn hytrach nag efelychu system flaenorol Ymddiriedolaeth y BBC a oedd yn defnyddio trwyddedau gwasanaeth unigol a oedd yn disgrifio cylch gwaith a natur pob gwasanaeth yn fanwl.<sup>30</sup> Dywedodd Radiocentre fod y disgrifiadau ansoddol yn y trwyddedau gwasanaeth yma gan yr Ymddiriedolaeth y BBC wedi annog y BBC i sicrhau bod ei wasanaethau'n unigryw.<sup>31</sup> Roedd eraill yn awgrymu nad ydy ein hamcanion lefel uchel arfaethedig ar gyfer pob diben cyhoeddus yn ddigon manwl i ddal y BBC i gyfrif yn effeithiol am berfformiad pob un o'i wasanaethau.<sup>32</sup> Dywedodd Bauer Media Group (**Bauer**) y gallai dibynnu ar gwotâu yn unig ar lefel gwasanaeth roi gormod o ryddid i'r BBC.<sup>33</sup> Pwysleisiodd Directors UK y dylai asesiad Ofcom i benderfynu a ydy'r BBC yn bodloni amodau rheoleiddio fynd y tu hwnt i fetrigau meintiol, a dywedodd Wireless Group yn ogystal â Phwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Lloegr (**ACE**) y dylen ni hefyd ystyried ffactorau ansoddol.<sup>34</sup>
- A2.9 Roedd rhai o'r rheini a ymatebodd yn awgrymu nad oedd ein dull o osod amodau rheoleiddio'n ddigon heriol, ac y gallai hynny arwain at ostyngiad sylweddol yn y gwaith o reoleiddio gwasanaethau'r BBC.<sup>35</sup> Dywedodd News Media Association (**NMA**) y byddai'n poeni petai ein dull gweithredu'n galluogi'r BBC i wneud gweithgareddau sy'n cael eu hariannu gan ffi'r drwydded nad oes modd eu cyfiawnhau ar sail cenhadaeth a dibenion cyhoeddus y BBC.<sup>36</sup> Mynegodd amryw o randdeiliaid bryderon penodol am ein dull gweithredu ar gyfer gwasanaethau radio'r BBC, gan ddweud bod y Drwydded ddrafft yn cynnwys llai o amodau rheoleiddio ar y gwasanaethau yma na thrwyddedau gwasanaeth Ymddiriedolaeth y BBC ac y gallai hynny, yn eu barn nhw, arwain at wasanaethau ac allbwn llai unigryw.<sup>37</sup>
- A2.10 Soniodd Global a Radiocentre am broblemau gyda'r fethodoleg a'r lefelau arfaethedig ar gyfer gosod cwotâu. O ran yr elfennau lle'r oedd y BBC – yn hanesyddol – wedi rhagori ar ein lefelau arfaethedig, roedden nhw'n dadlau y byddai'n rhaid eu codi'n uwch na'r lefelau arfaethedig yma er mwyn i'r cwotâu gael effaith.<sup>38</sup> Roedd un o'r ymatebwyr yn cwestiynu sut mae ein datganiad nad ydyn ni'n ceisio "gosod cyllidebau na strategaethau'r BBC ar

---

<sup>29</sup> Ymateb Llywodraeth yr Alban, Atodiad, tudalen 1.

<sup>30</sup> Ymateb RSA Fellows, tudalen 2; ymateb Global, paragraff 16; ymateb Radiocentre, paragraffau 29-30.

<sup>31</sup> Ymateb Radiocentre, paragraffau 38-39.

<sup>32</sup> Ymateb MG Alba, tudalen 7; ymateb Radiocentre, paragraffau 35-39.

<sup>33</sup> Ymateb Bauer, tudalen 8.

<sup>34</sup> Ymateb Directors UK, tudalen 1; ymateb ACE, tudalen 1; Wireless Group, paragraff 32 a pharagraff 36.

<sup>35</sup> Ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 2; ymateb Global, paragraff 16; ymateb Bauer, tudalen 6; ymateb Radiocentre, paragraffau 29-30; ymateb NMA, tudalen 4.

<sup>36</sup> Ymateb NMA, tudalen 4.

<sup>37</sup> Ymateb Wireless Group, paragraff 25; ymateb Voice of the Listener and Viewer (**VLV**) paragraff 71-75; ymateb Radiocentre, paragraff 27.

<sup>38</sup> Ymateb Global, paragraffau 18-19; ymateb Radiocentre, paragraffau 47-48.

gyfer ei raglenni a'i wasanaethau" yn cyd-fynd â'n cynigion i godi'r targedau presennol ar wasanaethau teledu ar gyfer rhai genres, ac i gyflwyno rhwymedigaethau newydd o ran oriau brig.<sup>39</sup>

- A2.11 Doedd y BBC ddim yn anghytuno â'n ffocws ar raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf. Ond, roedd yn dadlau mai dim ond hyd at bwynt y mae cwotâu niferoedd yn ddefnyddiol fel ymyriadau rheoleiddio, ac na fydden nhw'n sicrhau ansawdd nac effaith rhaglen a bod perygl y gallent gymell ymddygiad amhriodol. Yn y tymor hirach, roedd y BBC eisiau i'w berfformiad gael ei feirniadu mwy ar sail effeithiau a chanlyniadau'r gynulleidfa, yn hytrach nag ar bennu mewnbwn ac allbwn ansoddol.<sup>40</sup>
- A2.12 Dywedodd y BBC hefyd y byddai'n poeni petai'r amodau y bydden ni'n eu gosod yn y Drwydded derfynol yn arwain at fwy o gymhlethdodau a chyfyngiadau, a fyddai'n effeithio ar ei allu i gyflawni'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus mewn ffordd gost-effeithiol.<sup>41</sup> Yn olaf, dywedodd rhai rhanddeiliaid fod strwythur ein Trwydded yn awgrymu y byddai pob diben cyhoeddus yn cael ei ystyried ar ei ben ei hun, ond roedden nhw'n teimlo bod y dibenion yn gorgyffwrdd ac y dylid eu hystyried gyda'i gilydd. Roedd hyn yn arbennig o wir o ran y dull gweithredu yn y gwledydd a'r rhanbarthau ac amrywiaeth.

## Ein hymateb

- A2.13 *Rydyn ni'n dal o'r farn mai un Drwydded wedi'i strwythuro yn ôl dibenion cyhoeddus, gydag amcanion lefel uchel clir ac amodau rheoleiddio penodol, ydy'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni ein dyletswyddau o dan y Siarter a'r Cytundeb newydd. Mae pennu un Drwydded yn cydnabod y realiti y bydd angen i'r BBC gyflawni agweddau ar ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus newydd drwy wasanaethau unigol a drwy gyfuniad o wasanaethau. Mae un Drwydded yn ein galluogi i osod amodau ar wasanaethau unigol, ar grwpiau o wasanaethau neu ar y BBC drwyddo draw. Mae'r Siarter a'r Cytundeb newydd yn rhoi'r cyfrifoldeb i Fwrdd y BBC dros benderfynu sut bydd pob gwasanaeth unigol yn y BBC yn cyfrannu at ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus o fewn fframwaith sy'n cael ei osod gan ein Trwydded, ac rydyn ni o'r farn bod dull un Drwydded yn sicrhau'r cydbwysedd cywir.*
- A2.14 *Rydyn ni'n deall ei bod yn bwysig bod cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid ym mhob gwlad yn gallu dod o hyd yn rhwydd i'r amodau rheoleiddio sy'n berthnasol i'r wlad honno'n benodol. Er mwyn rhoi sylw i hyn, rydyn ni hefyd yn cyhoeddi pedair dogfen ar wahân, gan nodi mewn un lle yr amodau rheoleiddio sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd ym mhob gwlad. Bydd hynny'n ein galluogi i gynnig yr eglurder hwnnw heb gollir'r manteision a ddaw yn sgil trefn un Drwydded.*
- A2.15 *Rydyn ni wedi cadw nifer o'r targedau meintiol a oedd yn hen drwyddedau gwasanaeth yr Ymddiriedolaeth y BBC, gan eu diweddaru neu eu cryfhau i greu amodau rheoleiddio mewn nifer o achosion. Ond rydyn ni wedi mynd ati'n fwriadol i beidio ag atgynhyrchu'r hen ofynion ansoddol. Yn ein barn ni, roedd y rhain yn cyflawni rôl fwy strategol neu reolaethol*

---

<sup>39</sup> Ymateb yr Athro Beveridge, paragraff 1.

<sup>40</sup> Ymateb y BBC, paragraffau 6.6-6.8.

<sup>41</sup> Ymateb y BBC, paragraff 3.6.



– er enghraifft, pennu cylch gwaith neu gynulleidfa darged ar gyfer gwasanaeth – a lle Bwrdd y BBC fydd cyflawni'r rôl honno yn awr. Mae'r drefn reoleiddio newydd ar gyfer perfformiad y BBC yn seiliedig ar sicrhau bod gennym ni amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi i'w defnyddio fel adnoddau sylfaenol, a'r gallu i asesu perfformiad y BBC yn annibynnol. Fodd bynnag, rydyn ni'n cytuno ei bod yn bwysig bod gan y BBC ddealltwriaeth glir o'n disgwyliadau, felly mae ein hamcanion lefel uchel newydd yn egluro i'r BBC ac i randdeiliaid eraill y canlyniadau cyffredinol rydyn ni'n ceisio eu sicrhau. Byddwn yn rhoi mwy o amodau rheoleiddio ar waith os byddwn ni o'r farn bod hynny'n angenrheidiol.

- A2.16 Rydyn ni'n cytuno â'r safbwynt na ddylid ystyried y dibenion cyhoeddus ar wahân i'w gilydd. Fel roedden ni wedi dweud yn ein hymngynghoriad, mae'n bwysig nodi bod nifer o'r amodau rheoleiddio yn berthnasol i'r genhadaeth neu i fwy nag un o'r dibenion cyhoeddus, ac mae strwythur un Drwydded yn hwyluso hynny yn ein barn ni: y bwriad wrth drefnu'r amodau yn ôl diben cyhoeddus ydy gwneud y Drwydded yn hawdd ei defnyddio.
- A2.17 Cafwyd safbwyntiau amrywiol ar y dull gweithredu priodol o ran nifer a lefel yr amodau rheoleiddio, gyda rhai'n poeni bod y Drwydded ddrafft yn cynnwys llai o amodau na thrwyddedau gwasanaeth blaenorol Ymddiriedolaeth y BBC, ac eraill yn poeni bod y Drwydded ddrafft yn canolbwyntio gormod ar gyflawni cwotâu. Roedd y BBC ei hun yn poeni am y cwotâu niferoedd. Yn ein barn ni, mae ein dyletswyddau o dan y Siarter a'r Cytundeb yn mynnu'n benodol ein bod yn sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei ddibenion cyhoeddus. Felly, rydyn ni wedi rhoi amrywiaeth eang o amodau ar waith. Mae ein hasesiad o effaith gyffredinol yr amodau yma wedi'i nodi yn Atodiad 6.
- A2.18 Mae angen safbwyntiau ar y cydbwysedd priodol – o ran gosod amodau unigol ac yn gyffredinol – ac mae hynny'n anochel. Rydyn ni wedi gwneud newidiadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Mae ein Trwydded derfynol yn cryfhau nifer o'r amodau rheoleiddio o'r fersiwn ddrafft a gyhoeddwyd – er enghraifft, y Cod Ymarfer comisiynu yng nghyswllt amrywiaeth – mewn ymateb i'r ymgynghoriad a'n gwaith ymchwil ein hunain. Rydyn ni wedi ychwanegu amodau newydd, er enghraifft gofyniad comedi ar y cyd ar gyfer BBC One a BBC Two, a gofyniad i BBC Radio 1 gynnig dwy ymgyrch fawr ym maes gweithredu cymdeithasol bob blwyddyn.
- A2.19 Mae'r amodau rheoleiddio rydyn ni'n eu gosod wedi'u llunio'n benodol i herio'r BBC i gyflawni mwy, ac i ystyried y ffaith mai lle'r BBC ydy gwneud penderfyniadau am raglenni a gosod strategaethau a chyllidebau ar gyfer ei sianeli a'i wasanaethau. Er enghraifft, rydyn ni wedi gosod cwotâu heriol ar gyfer genre a rhaglenni gwreiddiol i'w darlledu am y tro cyntaf ar lefel a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu darpariaeth bresennol y BBC yn gyffredinol. Rydyn ni hefyd wedi gosod targedau ar gyfer gwasanaethau unigol mewn rhai achosion. Ond rydyn ni'n credu ein bod wedi gadael digon o hyblygrwydd i'r BBC i gynnal ei bortffolio o wasanaethau'n effeithiol. O ran y cwestiwn penodol ynghylch sut rydyn ni wedi ceisio sicrhau drwy ein amodau rheoleiddio bod y BBC yn unigryw, mae Atodiad 3 yn trafod y fanylach y gofynion rydyn ni wedi'u gosod i sicrhau gwasanaethau ac allbwn mwy unigryw.
- A2.20 Mae'r amodau rydyn ni wedi'u gosod yn y Drwydded yn ddim ond rhan o sut byddwn ni'n dal y BBC i gyfrif. Mae'r Drwydded yn nodi'r elfennau lle mae'r Siarter a'r Cytundeb yn mynnu, neu lle rydyn ni wedi gweld, bod angen amodau penodol. Mae'r Drwydded yn

*gosod gofynion heriol mewn amrywiaeth o elfennau, ac rydyn ni'n disgwyl i'r BBC fynd ymhellach. Byddwn yn asesu perfformiad y BBC yn erbyn amodau'r Drwydded ac ar draws holl wasanaethau ac allbwn y BBC. Os byddwn ni'n poeni am berfformiad y BBC, gallwn ystyried diwygio'r Drwydded, a gallai hynny gynnwys cwotâu uwch neu osod rhai newydd.*

## **Effaith gweithgareddau'r BBC ar gystadleuaeth**

- A2.21 Fe soniodd nifer o randdeiliaid am faterion yn ymwneud ag effaith gweithgareddau'r BBC ar y gystadleuaeth a'r farchnad ehangach. Roedd hyn yn cynnwys ymholiadau ynghylch sut byddai ein dull arfaethedig o reoleiddio perfformiad y BBC yn effeithio ar ein gwaith i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y meysydd lle mae'r BBC yn gweithredu.<sup>42</sup> Roedd STV yn dadlau bod ein dull gweithredu arfaethedig yn rhoi gormod o ryddid i'r BBC, ac y gallai ei gwneud yn anodd i Ofcom gategoreiddio newidiadau i weithgareddau'r BBC fel rhai arwyddocaol.
- A2.22 Roedd y rheini a ymatebodd hefyd wedi mynegi pryderon penodol am y modd y gallai gwasanaethau ac arferion presennol y BBC a/neu newidiadau posib i wasanaethau a chynigion y BBC ar gyfer gwasanaethau newydd, gael effaith niweidiol ar y farchnad.<sup>43</sup> Er enghraifft: Roedd STV yn poeni am gynnig y BBC i gael sianel deledu newydd ar gyfer yr Alban;<sup>44</sup> roedd Wireless Group am weld protocol wedi'i ddiweddarau yn cael ei gyhoeddi ar gyfer prynu hawliau i ddarparu digwyddiadau chwaraeon ar y radio;<sup>45</sup> a gofynnodd Guardian Media Group (**GMG**) am eglurder ynghylch sut mae codi materion a allai gael effaith sylweddol ar y farchnad.<sup>46</sup>
- A2.23 Cafwyd pwyntiau penodol gan rai rhanddeiliaid ynghylch dosbarthu gwasanaethau'r BBC. Yn benodol, roedd Sky yn dadlau y dylem osod gofyniad penodol ar y BBC yn mynnu ei fod yn sicrhau bod ei wasanaethau cyhoeddus yn y DU ar gael yn eang.<sup>47</sup> Mynegodd Pact a'r Radio Independents Group (**RIG**) bryderon am y ffaith nad oedd yn cyfeirio at orfodi'r gofynion yn ymwneud â chomisiynu.<sup>48</sup> <sup>49</sup>Dywedodd Creative Scotland hefyd nad oedd y Drwydded ddrafft yn sôn am y cwotâu cynhyrchu annibynnol.<sup>50</sup>
- A2.24 *Byddwn yn ystyried gallu'r BBC i gyflawni ei genhadaeth ac i hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus wrth asesu materion yn ymwneud â chystadleuaeth. Yn yr un modd, wrth adolygu perfformiad y BBC, byddwn ni'n ystyried y posibilrwydd y bydd gweithgareddau'r BBC yn peri niwed i gystadleuaeth. Mae'r dogfennau yma'n rhoi sylw i nifer o'r pwyntiau a gododd y rhanddeiliaid mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Yn benodol:*

---

<sup>42</sup> Ymateb Pact, paragraff 1.2; ymateb NMA, tudalen 5.

<sup>43</sup> Ymateb Wireless Group, paragraffau 69-70, 93-98; ymateb NMA.

<sup>44</sup> Ymateb STV, tudalen 1.

<sup>45</sup> Ymateb Wireless Group, paragraff 80.

<sup>46</sup> Ymateb GMG, tudalennau 5-6.

<sup>47</sup> Ymateb Sky, paragraff 2.9.

<sup>48</sup> Ymateb Pact, paragraffau 1.2 ac 1.3.

<sup>49</sup> Ymateb Creative Scotland, tudalen 2; ymateb RIG, paragraffau 31-35.

<sup>50</sup> Ymateb Creative Scotland, tudalen 2.

- a) *Mae ein canllawiau ar Asesu effaith newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn nodi sut byddwn ni'n asesu pa mor arwyddocaol ydy'r newidiadau a gynigir gan y BBC a'u heffaith bosib ar y farchnad.*
- b) *Mae ein canllawiau ar Asesu effaith gweithgareddau gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn cynnwys rhestr o rai o'r ffactorau y byddwn ni'n eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cynnal adolygiad cystadleuaeth o weithgareddau'r BBC.*
- c) *Mae ein canllawiau ar Ddosbarthu gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn nodi'r gofynion cystadleuaeth rydyn ni wedi'u gosod ar y BBC o ran dosbarthu, a'r ffactorau y bydden ni'n disgwyl eu hystyried wrth asesu cydymffurfiaeth. I ymateb i'r pwynt perthnasol a wnaeth Sky, dydyn ni ddim o'r farn bod angen i ni osod unrhyw ofynion ychwanegol i sicrhau perfformiad y BBC yn yr elfen yma.*
- d) *O ran comisiynu, mae'r BBC eisoes yn gorfod cydymffurfio â'r gofynion penodol mae'r Siarter a'r Cytundeb yn eu gosod arno'n uniongyrchol, gan gynnwys y rheini yn Atodlen 3 y Cytundeb. Felly, does dim angen ailadrodd y rhain yn y Drwydded er mwyn i Ofcom allu ei orfodi i gydymffurfio. Rydyn ni hefyd yn ystyried a oes angen mwy o reoleiddio yn yr elfen yma er mwyn diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.*

A2.25 *Byddwn yn cydweithio'n rheolaidd gyda'r BBC ar ei gynlluniau a gyda rhanddeiliaid eraill a fydd yn ein helpu i fynd ati cyn gynted â phosib i nodi elfennau posib y bydd angen eu hystyried o dan ein gweithdrefnau cystadleuaeth ar gyfer y BBC.*

## Cynllun Blynyddol y BBC

A2.26 Yn yr ymgynghoriad, nodwyd bod y Siarter yn mynnu bod y BBC yn llunio cynllun blynyddol sy'n gorfod cynnwys "cylch gwaith creadigol": hynny ydy, cynigion y BBC ar gyfer sut bydd ei holl wasanaethau cyhoeddus yn y DU a BBC World Service, yn y flwyddyn honno, yn cyfrannu at y broses o gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Gan y byddai'r BBC yn cyhoeddi cynllun blynyddol interim ar ôl i'n hymgynghoriad gael ei gyhoeddi, nodwyd hefyd y byddai'n gallu ystyried ein cynigion wrth iddo ddatblygu'r cynllun hwnnw. Roedden ni wedi dweud yn glir y bydden ni'n disgwyl bod y cynllun blynyddol interim yn cynnwys ymrwymadau ac y gallai'r BBC gael ei ddal i gyfrif yn erbyn yr ymrwymadau hynny,<sup>51</sup> ac y bydden ni'n craffu ar y cynllun blynyddol interim ar ôl iddo gael ei gyhoeddi a chyn i ni gwblhau ein Trwydded. Os bydden ni'n teimlo nad oedd y BBC yn cyflawni ar rai elfennau, roedden ni wedi dweud y bydden ni'n ystyried a ddylid cynnwys mwy o amodau rheoleiddio yn y Drwydded derfynol.<sup>52</sup> Cyhoeddodd y BBC ei gynllun blynyddol interim ar 3 Gorffennaf, bythefnos cyn i'n hymgynghoriad ddod i ben.

<sup>51</sup> Ymgynghoriad, paragraff 1.29.

<sup>52</sup> Ymgynghoriad, paragraff 3.8.

- A2.27 Soniodd rhai rhanddeiliaid am ddatblygiad strategaeth flynyddol y BBC, gan ofyn am gadarnhad ar y systemau sydd ar waith i sicrhau bod cynllun blynyddol y BBC yn cyd-fynd â'n hamodau rheoleiddio arfaethedig yn y Drwydded.<sup>53</sup>
- A2.28 Roedd rhai rhanddeiliaid a oedd yn cynrychioli'r sector radio masnachol wedi codi pwyntiau penodol am gynllun blynyddol interim y BBC. Dywedodd Global nad oedd digon o fanylion yn y cynllun blynyddol interim i roi sylw i'r hyn a oedd, ym marn Global, yn fylchau rhwng y cynllun blynyddol interim a'r Drwydded ddrafft.<sup>54</sup> Roedd Wireless Group yn dadlau bod anghysondeb llwyr rhwng uchelgeisiau'r BBC ei hun, sydd wedi'u nodi yn ei gynllun, a'r amcanion yn y Siarter a'r Cytundeb.<sup>55</sup> Dywedodd Radiocentre fod y cynllun, yn ôl pob golwg, yn amlinellu uchelgais i ddenu cymaint o gynulleidfa â phosib ac i leihau rhwymedigaethau rheoleiddio, gan gynnwys y rheini sy'n berthnasol i gystadleuaeth.<sup>56</sup>
- A2.29 *O dan y Siarter, cyfrifoldeb y BBC ydy paratoi a chyhoeddi'r cynllun blynyddol, ac mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod yr amcanion a'r cynigion yn ei gynllun yn cyd-fynd yn briodol â'r Siarter a'r Cytundeb. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r BBC hefyd gydymffurfio â gofynion ein Trwydded, ac rydyn ni'n disgwyl y bydd cylch cynllunio blynyddol y BBC yn ystyried hynny. Nodwn fod cynllun blynyddol interim y BBC yn cynnwys nifer o'n hamodau rheoleiddio arfaethedig. Hefyd, er nad oes gan Ofcom rôl uniongyrchol i orfodi'r ymrwymadau mae'r BBC wedi'u nodi yn ei gynllun blynyddol, gallwn ni ystyried perfformiad y BBC yn erbyn ei ymrwymadau fel tystiolaeth berthnasol o'i berfformiad cyffredinol wrth gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus. Er enghraifft, rydyn ni wedi ystyried ymrwymadau'r BBC i ddarparu allbwn radio unigryw wrth osod amodau rheoleiddio yn y Drwydded. Mae'n bosib y bydd yn rhaid i unrhyw gynigion yng nghynllun blynyddol y BBC, a allai arwain at newidiadau arwyddocaol i'w weithgareddau o ran gwasanaethau cyhoeddus, gael eu hystyried o dan ein rheolau cystadleuaeth.*<sup>57</sup>
- A2.30 *Rydyn ni wedi ystyried cynllun blynyddol interim y BBC yn ofalus, a'i lythyrau ar 28 Gorffennaf ac 14 Awst, a oedd yn nodi cynlluniau eraill yn ymwneud â phortreadu a chynrychioli a bod yn unigryw.*<sup>58</sup> *Rydyn ni wedi cyfeirio at y dogfennau yma wrth gwblhau ein fframwaith perfformiad arfaethedig. Rydyn ni'n disgwyl y bydd ymrwymadau eraill y BBC yn cael eu cynnwys yn ei gynllun blynyddol terfynol, sy'n gorfod cael ei gyhoeddi o fewn tri mis i ddyddiad cyhoeddi'r Drwydded gyntaf.*

## Pwyntiau eraill ar gwmpas a hyd a lled y Drwydded

- A2.31 Fe wnaeth rhanddeiliaid bwyntiau eraill ynghylch cwmpas a hyd a lled y Drwydded ddrafft hefyd, yn ogystal â'r cosbau ariannol y gallwn ni eu rhoi i'r BBC os na fydd yn cydymffurfio â'n hamodau rheoleiddio.

---

<sup>53</sup> Ymateb ACE, tudalen 1; ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 2.

<sup>54</sup> Ymateb Global, paragraff 18.

<sup>55</sup> Ymateb Wireless Group, paragraff 2.

<sup>56</sup> Ymateb Radiocentre, paragraff 19.

<sup>57</sup> Y BCA

<sup>58</sup> Llythyron wrth y BBC o 28 Gorffennaf 2017 a 14 Awst 2017

## BBC Three

- A2.32 Roedd yr International Broadcasting Trust (**IBT**) a Voice of the Listener & Viewer (**VLV**) yn bryderus nad oedden ni wedi cyfeirio at BBC Three ar-lein yn ein Trwydded. Fe ddywedon nhw y dylen ni sicrhau ein bod ni'n ystyried y gwasanaeth hwn wrth asesu perfformiad y BBC.
- A2.33 *Ar ôl cau BBC Three fel sianel deledu llinol, mae bellach yn rhan o BBC Ar-lein yn y Cytundeb.<sup>59</sup> Wrth asesu perfformiad y BBC, byddwn yn ystyried cyfraniad BBC Ar-lein, gan gynnwys BBC Three.*

## Y pumed diben cyhoeddus

- A2.34 Roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried nad Bwrdd y BBC yn unig ddylai adolygu'r ffordd y mae pumed diben cyhoeddus y BBC yn cael ei gyflawni - sef adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd - ac y dylai Ofcom ddiwygio'r Drwydded yn unol â hynny.<sup>60</sup>
- A2.35 *Rydyn ni'n cytuno â Llywodraeth Cymru ei bod yn bwysig bod y BBC yn cyflawni pob un o'i bum diben cyhoeddus yn effeithiol. Fodd bynnag, bydd y BBC yn cyflawni'r pumed diben cyhoeddus drwy'r World Service a'i wasanaethau masnachol gan fwyaf. Mae'r Siarter yn egluro mai cwmpas y Drwydded ydy gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU, nad ydyn nhw'n cynnwys y BBC World Service na gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan BBC Worldwide.<sup>61</sup> Felly, dydy'r Drwydded ddrafft ddim yn pennu amcanion lefel uchel nac amodau rheoleiddio sy'n benodol i'r pumed diben cyhoeddus. Fodd bynnag, wrth gyflawni ein hadolygiadau cyfnodol o berfformiad y BBC o dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'n rhaid i ni ystyried perfformiad y World Service o ran cyfrannu at genhadaeth a dibenion cyhoeddus y BBC, a byddwn yn sicrhau ein bod ni'n craffu ar sut mae'r BBC yn cyflawni'r pumed diben drwy'r dull hwnnw.*

## Radio digidol

- A2.36 Roedd Radiocentre yn bryderus am nad oedd unrhyw rwymedigaeth wedi'i chynnwys yn y Drwydded ddrafft a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i orsafoedd radio'r BBC gefnogi a hyrwyddo llwyfannau digidol, gan gynnwys radio digidol DAB. Cyfeiriodd at rwymedigaethau'r BBC i gefnogi'r broses o newid o radio analog i radio digidol o dan y Cytundeb.<sup>62</sup>
- A2.37 *Mae'r Cytundeb yn nodi'n uniongyrchol bod gofyn i'r BBC barhau i wneud pob ymdrech resymol i gefnogi'r newid o radio analog i radio digidol. Mae'n cynnwys bod gofyn i'r BBC*

---

<sup>59</sup> Mae Atodlen 1 o'r Cytundeb yn disgrifio BBC Ar-lein fel "gwasanaeth cynnwys ar-lein cynhwysfawr, sy'n gwasanaethu holl ddibenion cyhoeddus y BBC, gan gynnwys gwefannau newyddion a chwaraeon y BBC, BBC iPlayer a BBC Three ar gyfer oedolion iau".

<sup>60</sup> Ymateb Llywodraeth Cymru tud 1

<sup>61</sup> Erthygl 46 (3) o'r Siarter

<sup>62</sup> Cytundeb, Cymal 45.

*ymgyngori ag Ofcom ar ofynion technegol a chynllunio darpariaeth rhag ofn i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu dyddiad ar gyfer newid i ddigidol. Fodd bynnag, dydy'r cymal yma yn y Cytundeb ddim yn dod o fewn cwmpas pwerau gorfodi Ofcom, fel y maen nhw wedi'u nodi yn y Siarter a'r Cytundeb.*<sup>63</sup>

## Darlledu Gaeleg

- A2.38 Roedd MG Alba yn bryderus nad oedd y Drwydded ddrafft yn pennu sut byddai Ofcom yn mesur neu'n dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei rwymedigaethau yn y Siarter neu'r Cytundeb, i gefnogi'r broses o ddarparu cynnwys Gaeleg yn yr Alban. Hefyd, roedd yn ystyried y dylid cael dull ar waith lle bydd gofyn i'r BBC baratoi datganiad blynyddol o bolisi'r cyfryngau Gaeleg y byddai Ofcom yn ei adolygu.<sup>64</sup>
- A2.39 *Mae'r Cytundeb yn nodi'n uniongyrchol bod gofyn i'r BBC barhau i gefnogi'r broses o ddarparu cynnwys Gaeleg yn yr Alban, ac mae'n gwneud darpariaethau sy'n ymwneud â phartneriaeth y BBC ag MG Alba.*<sup>65</sup> *Dydy'r cymal yma yn y Cytundeb ddim yn dod o fewn cwmpas pwerau gorfodi Ofcom, fel y maen nhw wedi'u nodi yn y Siarter a'r Cytundeb.*<sup>66</sup>

## Cosbau ariannol

- A2.40 Mae nifer o randdeiliaid wedi gwneud sylwadau ar y cosbau ariannol y byddai modd i ni eu rhoi ar y BBC pe na fyddai'n cydymffurfio â'n hamodau rheoleiddio. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai unrhyw elw o gosbau o'r fath fynd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn y DU yn hytrach nag i'r Llywodraeth.<sup>67</sup> Dywedodd The Centre for Competition Policy (CCP) y byddai rhoi dirwy i'r BBC yn broblem gan nad oes cyfalaf preifat yn y fantol.<sup>68</sup>
- A2.41 *Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn darparu y dylai Ofcom drosglwyddo unrhyw gosb ariannol sy'n cael ei thalu i Drysorlys EM. Byddai unrhyw newid i'r fframwaith hwnnw yn fater i'r Llywodraeth a'r Senedd.*<sup>69</sup> *Mae ein canllawiau ar wahân ar gyfer ein gweithdrefnau i orfodi'r BBC i gydymffurfio â'n hamodau rheoleiddio yn nodi'r camau y bydden ni'n eu cymryd i unioni'r methiant i gydymffurfio petai hynny'n digwydd. Mae'r canllawiau hyn yn tynnu sylw at y ffaith fod y Siarter yn rhoi disgrisiwn i Ofcom osod rhai sancsiynau penodol ar y BBC. Byddem yn disgwyl rhoi cosbau ariannol am yr achosion mwyaf difrifol o beidio â chydymffurfio neu petaem o'r farn fod y BBC wedi torri amod rheoleiddio yn fwriadol, sawl gwaith neu'n fyrbwyll. Mae sancsiynau eraill y gallen ni eu rhoi ar waith yn cynnwys cyfarwyddo'r BBC i gymryd camau a fydd yn unioni'r methiant i gydymffurfio yn ein barn ni, neu'n derbyn addewid gan y BBC y bydd yn gwneud hynny.*<sup>70</sup>

---

<sup>63</sup> Erthygl 49 o'r Siarter a chymal 59 o'r Cytundeb.

<sup>64</sup> Cytundeb, Cymal 40.

<sup>65</sup> Cymal 40 o'r Cytundeb.

<sup>66</sup> Erthygl 49 o'r Siarter a chymal 59 o'r Cytundeb.

<sup>67</sup> Ymateb RIG, paragraffau 25-27; ymateb TAC, tudalen 6; ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 2.

<sup>68</sup> Ymateb CCP, tudalen 2.

<sup>69</sup> Deddf Cyfathrebiadau 2003, adran 400. Mae Adran 400(7) yn cyfeirio'n benodol at gosbau i'w talu gan y BBC.

<sup>70</sup> Mae Adran 400 o'r Ddeddf Adran 400 (7) yn cyfeirio'n benodol at ddirwyon a dalwyd gan y BBC

## Gweithdrefnau Ofcom ar gyfer pennu a diwygio'r Drwydded

- A2.42 Ochr yn ochr â'r Drwydded ddrafft, fe wnaethon ni hefyd ymgynghori ar ein dull arfaethedig ar gyfer sut byddai'r Fframwaith Gweithredu'n cwmpasu sut rydyn ni'n gosod ac yn gweinyddu trefn y Drwydded a'r gweithdrefnau y bydd yn rhaid eu dilyn. O dan y Siarter, rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n ymgynghori ynglŷn â'r canlynol, ac yn eu rhoi ar waith: (i) gweithdrefnau ar gyfer gosod yr amodau rheoleiddio mewn Trwydded; a (ii) ystyriaethau Ofcom ynghylch gosod amodau rheoleiddio.
- A2.43 Cytunodd y BBC â'n dull gweithredu, gan nodi ei fod yn hanfodol nad oedd y Drwydded gyntaf yn gwbl sefydlog, a bod modd ei haddasu'n gyflym yn unol â newidiadau yn ymddygiad y gynulleidfa ac amgylchiadau'r BBC.<sup>71</sup> Roedd Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Lloegr hefyd yn cefnogi ein dull gweithredu.<sup>72</sup>
- A2.44 Cafwyd cynigion gan Radio Independents Group (**RIG**) a Teledwyr Annibynnol Cymru (**TAC**) y dylai Ofcom ddarparu rhagor o wybodaeth am sut byddai'n penderfynu â phwy byddai'n ymgynghori a pha bryd.<sup>73</sup> Dywedodd Radiocentre, Wireless Group ac STV y dylai fod gan Ofcom ragdybiaeth tuag at gael ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau i'r Drwydded.<sup>74</sup> Cynigiodd Mudiadau Dathlu'r Gymraeg (**MDG**) y dylai Ofcom bennu amserlen sylfaenol ar gyfer ymgynghori.<sup>75</sup>
- A2.45 Roedd rhai rhanddeiliaid yn y gwledydd yn galw am ymgynghoriad mewn rhai amgylchiadau penodol, ac awgrymodd Llywodraeth yr Alban y dylid ymgynghori ag MG Alba yn yr un modd ag yr ymgynghorir â'r BBC ar unrhyw fater perthnasol.<sup>76</sup> Dywedodd Cytûn y dylid ymgynghori ag aelodau Llywodraeth Cymru ac Aelodau Seneddol.<sup>77</sup>
- A2.46 *Mae'r Cytundeb yn nodi ei bod yn rhaid i Ofcom, cyn pennu neu ddiwygio Trwydded, ymgynghori â'r BBC ac unrhyw un y mae Ofcom yn ei ystyried yn briodol.<sup>78</sup> Rydyn ni'n dilyn ein hegwyddorion ymgynghori sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer unrhyw ymgynghoriad y byddwn yn ei gynnal.<sup>79</sup> Fel y nodwyd yn y gweithdrefnau arfaethedig – rydyn ni bellach wedi penderfynu eu mabwysiadu ac rydyn ni wedi'u dilyn wrth bennu'r Drwydded – byddwn yn gwneud penderfyniadau ynghylch cwmpas a hyd ymgynghoriadau unigol drwy ystyried graddfa ac arwyddocâd unrhyw newid arfaethedig.*
- A2.47 *Mewn ymateb i awgrym Llywodraeth yr Alban, rydyn ni'n cytuno y byddai'n briodol i ni ymgynghori ag MG Alba ar unrhyw ddiwygiad sylweddol sy'n berthnasol i BBC Alba.*

---

<sup>71</sup> Ymateb y BBC, paragraff 7.3.

<sup>72</sup> Ymateb ACE, tudalen 4; ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 8.

<sup>73</sup> Ymateb RIG, paragraffau 38-41; ymateb TAC, tudalen 11.

<sup>74</sup> Ymateb Radiocentre, paragraffau 79-82; ymateb Wireless Group, paragraff 88; ymateb STV, tudalen 5.

<sup>75</sup> Ymateb MDG, tudalen 3.

<sup>76</sup> Ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalen 9.

<sup>77</sup> Ymateb Cytûn, tudalen 2.

<sup>78</sup> Cymalau 13(5) a 80 o'r Cytundeb.

<sup>79</sup> <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/how-will-ofcom-consult>

## **Penderfyniad ar ddull gweithredu cyffredinol Ofcom**

A2.48 *Yn sgil yr ymatebion i'n hymgyngoriad, rydyn ni wedi penderfynu:*

- a) rhoi un Drwydded ar waith ar gyfer holl wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU, wedi'i threfnu yn ôl dibenion cyhoeddus;*
- b) gosod amcanion lefel uchel y BBC o dan bob diben cyhoeddus yn disgrifio'r canlyniadau rydyn ni'n disgwyl eu gweld dros gyfnod y Siarter, ynghyd â set o amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi. Bydd y rhan fwyaf o'r amodau rheoleiddio'n gwneud cyfraniad uniongyrchol at sicrhau BBC sy'n fwy unigryw;*
- c) mabwysiadu'r gweithdrefnau a'r egwyddorion a gyhoeddwyd yn ein hymgyngoriad ym mis Mawrth ynghylch pennu'r Drwydded a gwneud newidiadau iddi yn y dyfodol.*



